

Cynhaliwyd cyfarfod o bell o Gyngor Cymuned Talylychau trwy fideo/dros y ffôn nos Fawrth, 2 Chwefror 2021, am 8 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Trwy fideo: Sarah Walters (Cadeirydd), Janine Roberts, Pauline George, Rhys Williams a Jane Morgan (Clerc). Dros y ffôn: Marged Bowen. Ymddiheuriadau: Steve Haines, Eifion Roberts a'r Cynghorydd Sir Joseph Davies.

Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion yn codi.

Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Y balans ar y gyfriflen ar 28 Ionawr 2021 oedd £7,398.68

Cytunwyd y byddem yn talu'r canlynol. Cyflog y Clerc, J. Morgan £168.68; Cyllid a Thollau ei Mawrhydi £42.40; Y Gwasanaeth Archwilio £408.25.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Cafwyd neges e-bost yn rhoi gwybod bod Cylchlythyr Unedig Talylychau yn cael ei lunio ac yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn dymuno cyfrannu. Cytunwyd y byddem yn ailosod yr hysbysiad a ymddangosodd yn y cylchlythyr blaenorol.

Yr Archwilydd Mewnol. Cafwyd llythyr yn rhoi gwybod bod yr Archwilydd Mewnol yn bwriadu codi'r ffioedd am archwiliad mewnol 20% ar gyfer 2020-21. Cytunwyd y byddem yn aros gyda'r un Archwilydd ac yn derbyn y cynnydd.

Cafwyd llythyr gan yr Urdd yn rhoi gwybod bod Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin yn cael ei symud i 2023. Amgawyd hefyd ei chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Gofynnodd yr Urdd yn garedig hefyd i ni ystyried cyfrannu'n ariannol os nad oeddem eisoes wedi gwneud hynny. Roedd Cyngor Cymuned Talylychau wedi cyfrannu.

Cafwyd cylchlythyr gan Ysgol Y Cwm, Trevelin.

Rhoddion.

Cytunwyd y byddem yn rhoi'r rhoddion canlynol o dan Adran 137: Ambiwlans Awyr Cymru, £300.00; Y Lloffwr, £50.00; Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Talylychau, £100.

Torri Porfa Mynwent yr Eglwys a'r Cae Cymunedol.

Cytunwyd y byddai tendr Torri Porfa Mynwent yr Eglwys i fod fel y llynedd ac i fod yn llaw'r Clerc erbyn 31 Mawrth 2021. Cytunwyd y byddai tendr Torri Porfa'r Cae Cymunedol i fod fel y llynedd ac i fod yn llaw'r Clerc erbyn 31 Mawrth 2021. Cytunwyd y byddai copïau o'r tendrau yn cael eu rhoi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan. Copïau i'w hanfon hefyd at y rhai a oedd wedi dangos diddordeb y llynedd ac at unrhyw un arall a fyddai'n gofyn. Cytunwyd hefyd i roi hysbysiad yng Nghylchlythyr Unedig Talylychau.

Cynllunio.

PL/01224. Hysbysiad Ymlaen Llaw. Adeilad Amaethyddol/Coedwigaeth. Adeilad i storio offer amaethyddol yn Brocyn, Talylychau, Llandeilo. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Unrhyw faterion eraill.

Cytunwyd y dylid rhoi gwybod i Adran Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin am y materion canlynol. Roedd y geuffos wrth Yr Hen Efail wedi dymchwel gan greu pant yn yr heol. Byddai'r Clerc hefyd yn ei hatgoffa am y ffordd ger Pont Llethr a oedd wedi dymchwel. Byddai'n gofyn am gael adfer y llinellau gwyn rhwng y fynedfa i Fferm Bryngwyn a Fferm Abernaint.

Nid oedd yna unrhyw faterion eraill, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.15 p.m. Byddai'r cyfarfod nesaf o bell yn cael ei gynnal nos Fawrth, 2 Mawrth 2021 am 8 p.m.